# Mewnforio cynhyrchion planhigion a chynhyrchion llysieuol

Gwybodaeth am fewnforio cynhyrchion planhigion a llysieuol, gan gynnwys ychwanegion, labelu a diogelwch cemegol. Nid yw hyn yn cynnwys ffrwythau na llysiau.

## Gwybodaeth gyffredinol

Mae'n rhaid i gynhyrchion planhigion a chynhyrchion llysieuol a gaiff eu mewnforio o drydydd gwledydd fodloni'r un safonau hylendid bwyd a bod yn destun i'r un gweithdrefnau â bwyd a gynhyrchir ym Mhrydain Fawr. Mae'r dudalen hon yn trafod cynhyrchion planhigion fel:

- ffacbys (*chickpeas*)
- ffa coch
- tofu
- pys
- ffa
- codlysiau
- mycoproteinau fel quorn
- cynhyrchion soi fel protein llysiau ansoddedig (*textured vegetable protein*)
- miled (*millet*)
- hadau blodyn yr haul
- hadau pwmpen

Ar gyfer mewnforion te a choffi, cymerwch gip hefyd ar Mewnforio diodydd a Mewnforio ffrwythau a llysiau.

## Trwyddedau mewnforio

Efallai na fydd angen trwydded iechyd nac hylendid arnoch chi i fewnforio bwyd, ond mae llawer o fwydydd o drydydd gwledydd yn gofyn am drwyddedau at ddibenion masnachu, ac efallai y byddant yn destun cwotâu.

## Lliwiau, cyflasynnau a melysyddion bwyd

Gall rhai cynhyrchion planhigion a llysieuol gynnwys lliwiau, cyflasynnau (flavourings) neu felysyddion bwyd. Er ei bod yn bosibl bod yr awdurdod bwyd wedi cymeradwyo'r rhain yn y wlad tarddiad, efallai na fydd rhai ohonynt wedi'u cymeradwyo ym Mhrydain Fawr. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'n tîm Ychwanegion Bwyd drwy ein ffurflen ar-lein.

## Labelu

Gallwch chi ddod o hyd i wybodaeth gyffredinol am labelu bwyd ar GOV.UK. I gael cyngor ar labelu cynhyrchion penodol, cysylltwch ag Adran Safonau Masnach eich awdurdod lleol neu eich Adran Iechyd yr Amgylchedd leol.

## Cynhyrchion organig

Os ydych chi'n mewnforio cynhyrchion organig (cynhyrchion amaethyddol byw neu heb eu prosesu, cynhyrchion amaethyddol wedi'u prosesu i'w defnyddio fel bwyd neu fwyd anifeiliaid, deunydd ysgogi llystyfiant a hadau i'w tyfu), o drydydd gwledydd, cysylltwch â'r Tîm Mewnforion Organig trwy wefan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra). I gael gwybodaeth am reoleiddio cynhyrchion organig a safonau organig (gan gynnwys labelu) o fewn y Deyrnas Unedig (DU), cysylltwch â'r Tîm Strategaeth Organig.

## Deunydd pecynnu

Mae deunyddiau ac eitemau a ddaw i gysylltiad â bwyd, gan gynnwys y rheiny a ddefnyddir i becynnu bwyd, yn cael eu rheoli gan gyfraith y DU a ddargedwir (retained UK law) ym Mhrydain Fawr. Mae'r ddeddfwriaeth yn arbennig o drylwyr wrth reoli deunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir eu defnyddio gyda bwyd. I gael gwybodaeth am ddiogelwch deunydd pecynnu, cysylltwch â'r Tîm Deunyddiau a ddaw i Gysylltiad â Bwyd drwy ein ffurflen ar-lein.

## Hylendid bwyd

Os oes gennych chi ymholiadau cyffredinol am hylendid bwyd, gan gynnwys bwyd wedi'i rewi a hadau y bwriedir eu hegino, cysylltwch â'n Tîm Polisi Hylendid Bwyd.

## Plaladdwyr

I gael gwybodaeth am lefelau diogelwch plaladdwyr, cysylltwch â Chyfarwyddiaeth Rheoleiddio Cemegau yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

## Halogion

Mae Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013 yn darparu ar gyfer deddfu a gorfodi cyfraith y DU a ddargedwir sy'n gosod terfynau rheoleiddio ar gyfer halogion mewn bwyd, fel nitrad, mycotocsinau, metelau, 3-MCPD, deuocsinau a hydrocarbonau aromatig polysyclig neu PAHs.

## Cyfyngiadau mewnforio

Mae rhai cyfyngiadau/gofynion mewnforio sy’n gallu bod yn berthnasol i gynhyrchion planhigion neu gynhyrchion llysieuol. Mae'r rhain fel a ganlyn:

### Cynhyrchion ‘risg uwch’

Dim ond drwy borthladdoedd a meysydd awyr penodol sydd wedi’u cymeradwyo fel mannau rheoli ar y ffin y gellir mewnforio rhai bwydydd a bwydydd anifeiliaid penodol nad ydynt yn dod o anifeiliaid a gaiff eu hystyried i beri ‘risg uwch’ i Brydain Fawr. Bydd y rhain yn destun rheolaethau swyddogol. Mae cynnyrch ‘risg uwch’ yn gynnyrch bwyd neu fwyd anifeiliaid y mae’n hysbys ei fod yn peryglu iechyd y cyhoedd, neu fod hynny’n dod i’r amlwg. Darllenwch ein canllawiau i fusnesau ar fycotocsinau.

## Afflatocsinau

Ers 1 Ionawr 2010, mae mewnforion rhai bwydydd o drydydd gwledydd penodol yn destun amodau arbennig oherwydd y risg eu bod wedi'u halogi ag afflatocsinau. Bydd hyn yn golygu mai drwy borthladdoedd a meysydd awyr penodol yn unig, sy'n fannau rheoli ar y ffin, y gellir mewnforio'r cynhyrchion hyn i Brydain Fawr, lle byddant yn destun rheolaethau swyddogol. Dyma ragor o wybodaeth am afflatocsinau i fusnesau yn ein canllawiau ar fycotocsinau.

## Bwydydd llysieuol sy'n cynnwys cynhyrchion llaeth

Mae llawer o fwydydd llysieuol yn cynnwys cynhyrchion llaeth ac felly maent yn cael eu hystyried fel cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yng Nghaerliwelydd ar 01228 403 600 (dewis 3) neu dros e-bost imports@apha.gsi.gov.uk. Mae APHA yn Asiantaeth Weithredol sy'n perthyn i Defra.

## Gofynion iechyd planhigion

Mae nifer o o gynhyrchion planhigion sydd un ai wedi'u gwahardd rhag dod i mewn i Brydain Fawr o drydydd gwledydd, neu mae angen tystysgrif ffytoiechydol (phytosanitary) arnynt i wneud hynny. Mae rheolaethau swyddogol a chyfyngiadau ar fewnforio, symud a chadw planhigion, plâu planhigion a deunyddiau eraill (fel pridd) yn hanfodol er mwyn atal cyflwyno a lledaenu organebau niweidiol.

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw ofynion iechyd planhigion, neu p'un a oes angen tystysgrif ffytoiechydol ar y ffrwythau neu'r llysiau yr ydych chi am eu mewnforio, cysylltwch â'r Tîm Iechyd Planhigion ar wefan APHA.